**Tasg 2**

# Cyfrifiad Cymru

Ewch ati i ysgrifennu ADRODDIAD FFEITHIOL i'w roi ar wefan ysgol yn cyflwyno'r canlyniadau a'r wybodaeth. Ceisiwch gyflwyno'r ffeithiau yn effeithiol a difyr.

**COFIWCH:**

- **AGORIAD**: Rhowch baragraff agoriadol sy'n crynhoi'r hyn byddwch chi'n ei gyflwyno yn eich adroddiad.

- **CYFUNO**: Ystyriwch pa ffeithiau sy'n briodol i'w cyflwyno gyda'i gilydd.

- **GWYBODAETH YCHWANEGOL**: Pa wybodaeth ychwanegol allwch chi ei chynnwys yn eich adroddiad? Er enghraifft, os edrychwch chi ar y pumed pwynt am sut mae "mudo" wedi effeithio ar y twf yn y boblogaeth, pa elfennau eraill sydd wedi effeithio arno yn eich barn chi?

- **PAM?**: Gan ddychmygu eich bod yn mynd i gyhoeddi'r adroddiad ar wefan ysgol, ystyriwch pam ei bod hi'n bwysig bod disgyblion ysgol yn gwybod am y Cyfrifiad. Ystyriwch pam ei bod hi'n bwysig cynnal cyfrifiad.

- **CLO**: Bydd angen crynhoi'r wybodaeth a dod i gasgliad wrth gloi eich adroddiad